# Siart Llif Cynllun Sicrwydd Gweithgareddau Antur Croeso Cymru

**Ydych chi/a yw eich busnes wedi'i sicrhau ar hyn o bryd gan *gynlluniau sicrwydd gweithgareddau antur yn y DU* a gydnabyddir gan Croeso Cymru?**

## IE

**LLWYBR UN** (nid oes unrhyw gost am hyn)

Llenwch *y ffurflen hunanardystio* darparwr gweithgareddau antur. Bydd gofyn i chi restru'r holl weithgareddau rydych chi'n eu darparu, yn ogystal â thystiolaeth o'ch statws sicrhau presennol.

## NA

**LLWYBR DAU** (Mae cost o £275 ynghyd â threuliau teithio sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'r ymgynghorydd technegol)

Cysylltwch ag un o *Ymgynghorwyr Technegol enwebedig Croeso Cymru* i fwrw ymlaen â'ch cais.

Bydd yr ymgynghorydd technegol yn amlinellu proses a gofynion yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys:

- Archwiliad o'ch busnes
- Arsylwi gweithgaredd(au)
- Cydnabyddiaeth bod *Safonau Ymarfer Croeso Cymru* wedi'u bodloni
- Adborth yn dilyn yr ymweliad

Bydd tystiolaeth o'r uchod yn cael ei darparu i chi ar ffurf adroddiad a fydd hefyd yn cael ei anfon at yr Uwch Ymgynghorydd Technegol i'w wirio. Ar ôl ei ddilysu, bydd yr adroddiad yn cael ei anfon atoch a'i anfon at Croeso Cymru.

Unwaith y bydd eich ymgynghoriad wedi'i gwblhau, llenwch y *ffurflen hunanardystio* darparwr gweithgareddau antur. Bydd gofyn i chi restru'r holl weithgareddau rydych chi'n eu darparu (fel y nodir yn eich adroddiad wedi'i ddilysu).

---

Unwaith y bydd eich cais wedi'i dderbyn a'i ychwanegu at y gronfa ddata, byddwn yn anfon tystysgrif atoch o Sicrwydd Gweithgarwch Antur Croeso Cymru a byddwn yn anfon eich manylion at *Stiwardiaid Data Croeso Cymru* a fydd yn anfon manylion mewngofnodi atoch er mwyn i chi allu lanlwytho eich manylion i'ch rhestr cynnyrch ar Croeso.Cymru. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw eich manylion ar y rhestr cynnyrch. Os hoffech ychwanegu unrhyw weithgareddau at eich rhestr o gynnyrch nad ydynt wedi'u rhestru ar eich tystysgrif, rhaid i chi gysylltu â quality.tourism@llyw.cymru a fydd yn gofyn am eglurder gan ei ymgynghorwyr technegol enwebedig o ran y camau nesaf. Mae'r rhestr cynnyrch yn para am 3 blynedd (fel y nodir ar eich tystysgrif), ac ar ôl hynny bydd Croeso Cymru yn rhoi gwybod i chi am adnewyddu'r broses.

**ON.** Wrth lenwi a chyflwyno eich *ffurflen hunanardystio*, byddwch yn cytuno i fodloni *Safonau Ymarfer Croeso Cymru*